Goldies Sing & Smile Cymru

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth

Made possible with Heritage Fund

The Moondance Foundation

www.goldiescymru.org.uk Charity Registration No 1121600. Rhif Cofrestru Elusen 1121600.

# Gwrando a Dysgu Gyda'n Gilydd - prosiect Ysgolion Cynradd




Mae elusen Goldies Cymru – GOLDIES yn cynnal sesiynau canu gyda'n gilydd ar gyfer pobl hŷn gydag arweinwyr ymroddedig mewn neuaddau eglwys, ystafelloedd cymunedol a llyfrgelloedd ar draws Cymru. Gan ddod â ffrindiau at ei gilydd, mae'r rhaglen yn anelu i wella lles pobl hŷn mewn cymunedau lleol. Mae'r elusen yn cydweithio ac mewn partneriaeth gydag ystod o sefydliadau cysylltiedig ag oedran yn cynnwys y Gymdeithas Strôc, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Dementia Matters ym Mhowys a Home Instead Cardiff ac ysgolion.

Mae'r CANLLAWIAU PROSIECT hyn ar gyfer rhaglen rhyng-genhedlaeth newydd – a ysgrifennwyd gan **Elizabeth Berry**, Pennaeth Ysgol Gynradd Bryn Celyn. Yn y gorffennol mae Elizabeth wedi cymryd rhan mewn rhaglenni a enillodd wobrau ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

# ‘Cynefin’ ar gyfer Cenedlaethau’r Dyfodol

## Canfod ymdeimlad o berthyn drwy brosiectau sy’n pontio’r cenedlaethau

Bu Rhaglen Ysgolion Goldies Cymru yn rhedeg yng Nghymru am nifer o flynyddoedd ond effeithiodd Covid yn fawr iawn ar y gwaith hwn. Cyn y pandemig, tyfodd ‘Cantata’r Cadoediad’, prosiect a enillodd Gategori Addysg y Loteri Genedlaethol, allan o brosiect creadigol yn cynnwys athrawon a’u disgyblion mewn ysgolion yng Nghaerdydd yn coffau diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Ysgogodd y rhaglen ymdeimlad go iawn o ddysgu dilys am yr effaith a gafodd y Rhyfel Byd Cyntaf ar Gaerdydd a’i phreswylwyr. Aeth yr ysgolion a gymerodd ran i berfformio yn y Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol yn Neuadd Dewi Sant, Canolfan Gelfyddydau Chapter a llawer o safleoedd eraill yn Ne Cymru. Ers hynny, mae’r elusen a’r bobl hŷn wedi cefnogi dysgu pellach drwy ei brosiect gemau cae chwarae a chysylltiadau gyda hanes byw.

Eleni mae’r elusen yn falch i ddod â phrosiect newydd i chi. Mae’r rhaglen yn canolbwyntio ar berthyn a dod ag ymdeimlad o ‘Cynefin’ i’ch ysgol gyda chyfleoedd i ddod â phobl hŷn i’ch cymuned, i chwarae, dysgu a chydweithio a chanfod mwynhad mewn treulio amser gyda’ch gilydd. *Caiff ei gefnogi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.*

## Beth yw Cynefin?

Mae’r Cwricwlwm i Gymru yn diffinio ‘cynefin’ fel y man lle teimlwn ein bod yn perthyn, lle mae’r bobl ai’r tirwedd o’n hamgylch, y golygfeydd a’r synau yn gyfarwydd.

Mae cynefin yn golygu mwy na dim ond y gofod corfforol yr ydym yn byw ynddo. Caiff ei ddefnyddio’n aml i esbonio sut mae pobl a natur yn rhyngweithio a sut mae’r  berthynas hon yn effeithio ar ein hymdeimlad o hunan a lles.

Mae cynefin yn syniad holistig sy’n rhoi ystyriaeth i agweddau ffisegol, cymdeithasol, diwylliannol, ysbrydol ac economaidd lle, yn ogystal â sut mae’r agweddau hynny yn rhyngweithio gyda’i gilydd – y gymuned a’i diwylliant, traddodiadau a hunaniaeth. Caiff ei ystyried y gofod **hanesyddol**, **diwylliannol** a **cymdeithasol** a gaiff ei fowldio a’i ddiffinio gan y gymuned sy’n byw yno.

Mae addysgu cynefin yn bwysig iawn yn y dyniaethau, sy’n cynnwys hanes, daearyddiaeth, crefydd, cerddoriaeth, astudiaethau busnes, moeseg ac egwyddorion.

Mae dysgu yn y maes hwn yn galluogi myfyrwyr i ffurfio ymdeimlad cadarn o’u hunaniaeth a’u llesiant eu hunain yn ogystal ag ymwybyddiaeth o hunaniaethau eraill a’r berthynas rhwng pobl, lleoedd a hanes yng Nghymru ac ym mhob rhan o’r byd. Dylid rhoi ystyriaeth i’r cyd-destun ar y lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol i gyd tra’n datblygu ymdeimlad o “cynefin” yn y maes hwn.

**Mae’r gwaith yn gyfle i blant ac athrawon i gydweithio gyda phobl hŷn i:**

- Datblygu ymdeimlad o chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, presennol a dyfodol a gaiff ei sbarduno gan ymholiad ac ymchwil.
- Deall y caiff digwyddiadau cymhleth a phrofiadau dynol eu gweld, eu dadansoddi a’u cynrychioli mewn amrywiaeth o ffyrdd.
- Deall fod ein hamgylchedd yn amrywiol a deinamig, y mae prosesau ac ymddygiad dynol yn effeithio arnynt.
- Deall fod cymdeithasau dynol yn amrywiol a chymhleth.

# Y cyd-destun lleol a chenedlaethol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) yn siarad am sut y gallwn gefnogi ein cymunedau i dyfu gyda'i gilydd. Mae effaith unigrwydd ar aelodau agored i niwed ein cymuned yn hysbys iawn. Mae dod â phlant a phobl hŷn ynghyd yn dod â llawer o fuddion i bawb sy'n gysylltiedig.

Mae'r rhaglen hon yn gyfle i ysgolion gydweithio gyda'r elusen a'r bobl hŷn i sicrhau am ***newid cadarnhaol i bob cenhedlaeth***.




# Ein cwricwlwm

- Datblygu ymdeimlad o berthyn a 'cynefin' yn y gymuned drwy wei. thgareddau cysylltiedig â threftadaeth.
- Hyrwyddo iechyd a lles ffisegol, meddyliol ac emosiynol mewn plant a phobl hŷn.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb moesegol mewn cyfranogwyr tuag atynt eu hunain, eraill a'r amgylchedd.
- Datblygu dealltwriaeth, parch ac empathi at ei gilydd rhwng cenedlaethau drwy ryngweithio a chydweithredu ystyrlon.
- Creu effaith gadarnhaol ar gymdeithas drwy gamau gweithredu personol ac ar y cyd.

Mae'r prosiect yn cynnig cyfoeth o syniadau ar gyfer ysgolion a phobl hŷn i ddod ynghyd i feithrin ymdeimlad o berthyn drwy weithgareddau cysylltiedig â threftadaeth. Wrth i ysgolion weithio gydag ysgolion i ddatblygu cwricwlwm sy'n ystyrlon i'w cymunedau bydd llawer o gyfleoedd i'r plant fod â ffocws ar ***ddibenion*** y cwricwlwm newydd.

***dysgwyr uchelgeisiol, galluog*** | ***unigolion iach, hyderus***
***dinasyddion gwybodus yn foesegol*** | ***cyfranwyr creadigol, mentrus***

Bydd datblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau drwy ffocws ar feysydd dysgu a phrofiad yn ffurfio sail ar gyfer llawer o'r prosiect hwn.

- Iechyd a Llesiant
- Dyniaethau
- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Celfyddydau Mynegiannol
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## Ffocws a awgrymwyd ar Ddatganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

**Iechyd a llesiant**

***D1:*** *Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.*
***D2:*** *Mae'r ffordd y proseswn ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.*
***D3:*** *Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.*
***D4:*** *Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn i, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.*
***D5:*** *Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.*

**Dyniaethau**

***D1:*** *Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.*
***D2:*** *Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.*
***D3:*** *Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.*
***D4:*** *Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.*
***D5:*** *Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.*

# Awgrymiadau ar gyfer EICH YSGOL

## a ffyrdd o weithio gyda phobl hŷn yn eich cymuned i feithrin ymdeimlad o 'Cynefin'

### *Gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau: y cynnig*

**Canu a Gwenu:** Dyma'r ffordd berffaith i blant a phobl hŷn ddysgu gyda'i gilydd. Mae cyd-ganu hen ffasiwn yn ffordd berffaith i gael effaith gadarnhaol ar les pawb sy'n cymryd rhan. Beth am wahodd grŵp lleol Goldies Cymru i ymweld â'ch ysgol yn rheolaidd? Gallech gydweithio i ysgrifennu cân am yr ardal. Ymwelwch ag archif leol neu eich llyfrgell lleol i ddysgu mwy am yr ardal lle mae'ch ysgol.

**Gemau Bwrdd:** Mae pawb wrth eu bodd yn chwarae gemau bwrdd ond gyda mwy o ddefnydd o amser sgrin a defnyddio dyfeisiau, mae plant yn llai tebyg o chwarae gemau bwrdd adref gyda'u teuluoedd. Beth am wahodd rhai o aelodau hŷn o'r gymuned i'r ysgol i addysgu'r plant sut i chwarae gemau bwrdd? Gallech hefyd roi cynnig ar ddominos a gemau cardiau. A allai'r plant wedyn addysgu rhai plant iau? A oes unrhyw gemau enwog yng Nghymru?

**Coginio Iach:** Gall plant a phobl hŷn ddod at ei gilydd i ddysgu a rhannu rysetiau iach sy'n rhoi maethion hanfodol ac yn cefnogi iechyd corfforol a meddwl. Mae hyn hefyd yn gyfle i deuluoedd rannu hoff rysetiau eu cartref. Fedrech chi wneud llyfr rysetiau gyda'ch gilydd i'w gwerthu yn yr ysgol neu fel rhan o brosiect menter? Gallech hefyd roi cynnig ar ddominos a gemau cerdyn. A allai'r plant wedyn addysgu rhai plant iau? A oes unrhyw gemau enwog i Gymru.

**Yoga a Myfyrio:** Gall cyfranogwyr, ifanc a hen, ddysgu a rhannu ystumiau yoga addfwyn a thechnegau ymwybyddiaeth ofalgar i ymlacio, ymestyn a chryfhau eu cyrff a'u meddyliau. Gallant hefyd ystyried goblygiadau moesegol hunanofal a hunan-ymwybyddiaeth.

**Garddio a Theithiau Natur:** Gall plant a phobl hŷn ddarganfod rhyfeddodau natur drwy blannu, tocio a medi gardd lysiau neu berlysiau. Gallant hefyd ymchwilio parciau neu lwybrau natur cyfagos a dysgu am faterion moesegol tebyg i fioamrywiaeth, cadwraeth a chynaliadwyedd. Mae gofalu am yr ardal a bro yr ysgol yn bwysig i'r bobl hŷn a'r plant. A allwch ddechrau ymgyrch i ddiogelu'r ardal leol?

**Adrodd ac Ysgrifennu Straeon:** Gall cyfranogwyr rannu ac ysgrifennu straeon, cerddi am eu phrofiadau bywyd, gwerthoedd ac uchelgais. Gallant hefyd adlewyrchu ar ddilemâu a dewisiadau egwyddorol a gawsant a sut i drin gyda nhw. Gwnewch lyfr am brofiadau a gafodd y plant a'r bobl hŷn yn cael eu magu a byw yn yr ardal. Gwerthwch y llyfr mewn siopau lleol.

**Gwasanaeth Cymunedol:** Gall plant a phobl hŷn ymuno i chwarae a gweithredu prosiect gwasanaeth cymunedol sy'n trin angen neu bryder lleol, tebyg i lanhau parc, ymweld â chartref yr henoed, neu godi ymwybyddiaeth am fater iechyd. Gallant drafod goblygiadau egwyddorol gwirfoddoli, helpu eraill a bod yn ddinasyddion cyfrifol.

**Prynhawniau Crefft:** Mae hwn yn gyfle i blant a phobl hŷn gymryd rhan mewn gweithgareddau crefft a chelf. Er enghraifft, gall hyn fod yn gyfle i'r bobl hŷn i addysgu'r plant i wnïo neu weu. Mae addysgu a dysgu sgiliau newydd o genhedlaeth i genhedlaeth yn ffordd wych i rannu rhywbeth gyda'r gymuned.

**Hanes Byw:** Daw plant a phobl ifanc ynghyd i rannu profiadau plentyndod er enghraifft drwy rannu ffotograffau neu arteffactau gwyliau teulu. Mae hon yn ffordd wych i annog siarad a gwrando rhwng y ddau grŵp.

**Eich Llyfrgell Leol:** Rydym yn gweithio gyda llyfrgelloedd lleol i hyrwyddo DYDDIAU AGORED.



**I GAEL MWY O FANYLION- CYSYLLTWCH Â GRENVILLE JONES, SEFYDLYDD GOLDIES**
**E-bost : info@goldiescymru.org.uk**

**PLEASE tell us about your projects so we can support you . . .**

Cyswllt: **Ffôn: 017161 472467** E-bost: **info@goldiescymru.org.uk**

**MAE MANYLION LLAWN AR GAEL YN: www.goldiescymru.org.uk**

Cafodd y lluniau hyn eu tynnu yn 2022 yn
sesiwn prosiect rhyng-genhedlaeth Goldies Cymru yn Ysgol Gynradd Heol Goffa

